

papur



priordy



**Pan welaf wên y blodau
ar berth a dôl a gardd
rho'r weddi'n wres i'm calon
am ras i dyfu'n hardd.**

Emyn Plant, T.Elfin Jones

Dewiswyd gan Fflur Dafydd

Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn

Rhifyn 316
PAPUR TACHWEDD 2018

Pigion gan ein Gweinidog

Calendrau Adfent



Fe fydd hi'n dymor yr Adfent cyn i ni droi rownd, a llawer i blentyn yn edrych ymlaen at agor drysau bach y calendr adfent bob bore. Er gwybodaeth, rwy wedi gweld calendrau adfent yn cynnwys siocled ac yn protreadu stori'r geni ar werth yn rhai o'r archfarchnaoedd lleol, a chofiwch fod modd prynu rhai siocled Masnach Deg hefyd.

Calendrau Adfent go chwith

Diolch i Carys Morgans am dynnu fy sylw at hwn. Mae'r '**reverse advent calendar**' yn ffordd o gefnogi pobl gydag adnoddau prin dros yr Ŵyl. Y bwriad yw rhoi un eitem o fwyd y naill ochr bob diwrnod dros dymor yr adfent a'i gyflwyno i'r banc bwyd ar ddiwedd y tymor. Beth amdani? Rwy'n credu y rhown ni gynnig ar hwn yn ein tŷ ni dros dymor yr adfent.



Eglwysi dementia-gyfeillgar




Rwy wedi gwrandao ar ddau gyflwyniad mewn dwy gynhadledd wahanol yn ddiweddar sy'n pwysleisio'r angen i eglwysi fod yn ddementia-gyfeillgar. Dementia yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'n cymdeithas oedrannus heddiw. Mae 850,000 yn byw gyda Dementia yn y DU. I'r rhai sy'n

byw gyda'r cyflwr, ac i'w gofawyr, mae'r cyflwr yn medru bod yn

bwysau mawr arnynt yn gorfforol, yn emosiynol ac yn ysbrydol - ac yn brawf gwirioneddol o gariad, amynedd a ffydd. Gall Eglwysi a chymuendau ffydd, o'u haddysgu'n gywir, fod yn llefydd croesawgar, cynhwysol a diogel i'r sawl sy'n dioddef o'r cyflwr.

Rhwydwaith

Cydio popeth ynghyd a wna rhwydwaith. Dyna a wna Rhwydwaith *Papur Priordy* bob mis hefyd. Gwaith Tina Charles oedd y Rhwydwaith. Bu'n ei lunio'n ddiwyd ac amyneddgar am flynyddoedd lawer gan barhau i'w wneud o'i gwely yn yr ysbyty dros y misoedd diwethaf. Daw cyfle yn rhifyn y mis nesaf i dalu teyrnged lawn iddi. Ond yn y cyfamser, cyhoeddwn y rhifyn hwn o *Bapur Priordy* i gofio mewn diolchgarwch am flynyddoedd o lafur cariad a wnaed gan Tina ar y cyd ag Alun ac eraill yn golygu *Papur Priordy*. Diolch i Alun am yr ymdrech i gael y rhifyn hwn o'r Papur drwy'r wasg a hynny dan amgylchiadau anodd.



Gweddïwn

Drwy weddïau Iesu, dysg ni sut i weddïo.
Drwy roddion Iesu, dysgu ni sut i roi.
Drwy ymdrechion Iesu, dysg ni sut i weithio.
Drwy gariad Iesu, dysg ni sut i garu.
Drwy groes Iesu, dysg ni sut i fyw.

Amen

Gweddi allan o *Mil a Mwy o Weddïau*



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys *Papur Priordy*)

DARLLENIADAU

Mis Gorffennaf	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 23: 1-12
Wythnos 2	Mathew 26: 1-13
Wythnos 3	Mathew 25: 14-30
Wythnos 4	Mathew 25: 31-46

CWIS ADAR AC ANIFEILIAID

Wynne Jenkins
RHIFYN HYDREF 2018



YR ATEBION

1.Croesyceiliog 2. Llanarthne 3.Nant y ci
4 Llanrhaeadr-ym-Mochnant 5 Llangathen 6 Sanclêr
7 Llwynpïod 8 Elyrch 9 Cwrt y Cadno 10 Llys y fran

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

ELIS A MEINIR JONES

at gostau cyhoeddi Papur Priordy y mis hwn

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com?



GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Bore Sul, 7 Hydref 2018

CROESAWODD Beti-Wyn bawb i'r cwrdd a diolchodd i Fand y Priordy am eu cyfraniad i'r gwasanaeth ac i bawb am yr holl roddion i Fanc Bwyd Caerfyrddin.



Cyd-adroddodd pawb yr 8fed Salm a cyflwynodd Ethan a Iestyn yr emyn cyntaf sef '*Cofia bob amser*'. Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r casgliad a gyflawnwyd gan Efa, Luned, Myfi a Cian, fe ganwyd yr emyn nesaf sef '*Pwy wnaeth y sêr uwchben*'. Anna a Beca ddaeth nesaf i'r pulpud i gyflwyno'r darlenniad a'n gwneud i feddwl o ble daw ein brecwast a pwy sy'n gyfrifol am greu ein tost, grawnfwyd a banana? Rydym yn bwyta'n brecwast bob bore heb feddwl am yr holl bobl sydd wedi gweithio'n galed yn y cefndir, ac wrth gwrs am Dduw sydd y tu ôl i'r cwbl yn rhoi glaw a haul, er mwyn bod y bwyd yn tyfu ar ein cyfer. Amserol iawn felly oedd i'r gynulleidfa ymuno yn y gân:

*Tu hwnt i'r dorth mae'r blawd, tu ôl i'r blawd mae'r felin,
Tu ôl i'r felin draw ar y bryn, mae cae o wenith melyn.
Uwchben y cae mae'r haul, sy'n t'wynnu bob tywysen,
Uwchben yr haul mae Duw sy'n rhoi, y gwynt a'r glaw a'r heulwen.*

Diolchodd Beca ac Anna i Dduw am fod mor garedig tuag atom a clywyd cân Cyw a'i ffrindiau yn y cefndir i'n hatgoffa ni i ddiolch am bopeth. Cyfle Jona oedd hi nesaf i ddarllen y weddi, ac ar ôl i bawb gyd-weddio Gweddi'r Arglwydd, canwyd yr emyn '*O O O mor dda yw ein Duw*' gyda'r band taro yn ymuno yn yr hwyl. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o blant iau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan.

Tro Beti Wyn oedd hi nesaf i sôn am 'Y Goeden Ffrwythau' arbennig oedd ganddi. Roedd hi wedi bod yn brysur iawn yn paratoi'r goeden, ond nid coeden arferol oedd hi. Doedd dim ffrwythau ar y goeden! Dywedodd bod angen cymorth y plant iau i roi ffrwythau arni, ond yn gyntaf roedd rhaid iddynt ddyfalu pa ffrwythau a welwyd yn y lluniau ar y sgrin. Tro Gwenan oedd hi

gyntaf i osod llun o fanana ar y goeden, yna Jona gyda'i afal, Beca â'i oren, Efa â'i cheirios, Luned â'i lemwn ac Anna gyda'i eirin gwlanog.

Edrychai'r goeden dipyn gwell gyda'r ffrwythau hyfryd yn hongian ohoni, ond roedd dal lle i ragor o ffrwythau. Yn y Testament Newydd dywedodd Iesu bod yn rhaid cael ffrwythau arbennig yn ein bywydau, ac y dylem eu gweld ar y goeden. Wrth ddiolch, mae angen i ni dyfu rhain yn ein bywydau a tro Cadi oedd gosod y ffrwyth LLAWENYDD ar y goeden, yna Ifan â ffrwyth DAIONI, Tomos â ffrwyth CAREDIGRWYDD, Luned â ffrwyth AMYNEDD a Cian â ffrwyth CARIAD. Mae Iesu yn sicr am i ni garu pawb, hyd yn oed os nad ydym yn gweld llygad am lygad bob tro. Mae'n rhoddion i'r Banc Bwyd yn arwydd o gariad at ein cyd-ddyn yma yng Nghaerfyrddin. Diolch i Henry a Bronwen Wilkins, Swyddogion y Banc Bwyd, am eu cludo i'r ganolfan ar ein rhan.



Gyda tri ffrwyth arall ar ôl, Mali roddodd y ffrwyth ADDFWYNDER ar y goeden, yna gosododd Gwenan ffrwyth FFYDDLONDEB a Cian ffrwyth HEDDWCH. Mae angen i bobl siarad, drwy gwrdd â'i gilydd i drafod. Dyw Iesu ddim eisiau ein gweld yn rhyfela a cwmpo mas. Gyda'r goeden nawr yn llawn ffrwythau, fe fydd y byd yn lle gwell i fyw.

DIWEDDWYD y gwasanaeth gyda phawb yn ymuno i ganu'r emyn '*Mae bysedd sydd yn clicio...*'. Braf oedd gweld pawb yn ymuno gyda'r plant i glicio bysedd, i nodio'u pen, i blygu'u gliniau, i stampio'u traed ac i grychu'u trwynau. Diweddglo llawn hwyl i wasanaeth Diolchgarwch cofiadwy ac wrth ffarwelio, derbyniodd bawb afal blasus yn rhodd gan Beti-Wyn. Diolch yn fawr iawn.

OEDFA'R HWYR

Braf oedd croesawu cyfellion atom yn cynnwys Heol Awst a'r Tabernacl i'n cyfarfod diolchgarwch hwyrol.

Ein gwestai oedd Arfon Jones, Caerdydd, sydd gyfarwydd iawn i ni fel cyfieithydd beibl.net - testun sy'n cyflwyno'r Beibl mewn Cymraeg llafar syml ar lein ac mewn print. Yn ei fyfyrddod ac wrth iddo'n



paratoi ar gyfer y Cymun, fe'n heriodd i ystyried o ddifrif y cwestiwn *Pam dw i yma?* ac i ailddarganfod y brwdfrydedd a'r wefr o adnabod Iesu Grist. A hithau'n gynhaeaf, esboniodd mai'r ffordd orau o fynegi'n diolch i'r Arglwydd am y greadigaeth a'r holl roddion a ddaw i'n rhan yw drwy geisio bod yn Grist debyg yn ein

ffordd o fyw.

Cynorthwywyd ein Gweinidog i weini'r Cymun gan Wyn Tegryn Evans a Philip Jones. Cyflwynwyd y darlenniad gan Joan Thomas (Heol Awst) a'r weddi gan Y Parchedig Peter Cutts (Y Tabernacl). Y casglyddion oedd y Dr Huw Michael a



Dennis Jones ac roedd Eira Phillips wrth yr organ. Casglwyd £111.60 at Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Cawsom fwynhau Swper y Cynhaeaf gyda'n gilydd yn y Ffestri wedi'r oedfa ac mae'n diolch yn fawr i'r gwragedd a fu'n paratoi ac yn gweini,

EIN GŴYL DDIOLCHGARWCH
Gweler yr Adroddiad



YR YSGOL SUL YN ERW HIR
Gweler yr Adroddiad



Dr Llinos Roberts...

Ymweliad yr Ysgol Sul â Chartref Erw Hir 21 Hydref 2018

A hithau'n gyfnod Diolchgarwch, roedd yn briodol mai 'diolch' oedd thema'r gwasanaeth pan aeth yr Ysgol Sul i ymweld â Chartref Erw Hir ar 21 Hydref. Mae gennym gymaint i fod yn ddiolchgar amdano, a'r cyfnod yma'n gyfle i ni werthfawrogi hynny.



Cawsom groeso cynnes a thrigolion Erw Hir yn amlwg wedi mwynhau clywed y plant yn canu a darllen. Diolch i'r holl blant am ganu mor hyfryd, ac am y darlenniadau a'r eitemau gwyh. Diolch hefyd i Jayne am gyfeilio mor arbennig a chodi hwyl. Diolch i staff a thrigolion Erw Hir am y croeso twymgalon eto eleni.



Cawsom fore bendigedig, a chyfle am sgwrs dros baned a sudd yn dilyn y gwasanaeth.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU

LANSIO LLYFR STRAEON GRAV

gan

RHYS MEIRION

Nos Wener 9 Tachwedd 2018

Yn dilyn cynhelir

CYNGERDD

gan

RHYS MEIRION ALED WYN DAVIES ELIN FFLUR

THEATR IEUENCTID MENTER CWM GWENDRAETH AC

ELLi yn Neuadd Pontyberem

Tocynnau: £15 Plant: £5 (Swyddfa Menter / Neuadd Pontyberem / Siop y Pentan / Swyddfa Llyfrau Llafar / Mansel Thomas neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor)


Noddir y noson gan Castell Howell



Irene Williams...

GHANDI A'R LLYFR SANCTAIDD

MAE biliwn o Hindwiaid yn y byd - miliwn ohonynt ym Mhrydain a deg mil yma yng Nghymru. Mae'r mwyafrif ohonynt yn byw yn Abertawe a Chaerdydd, ac eraill yma a thraw dros Gymru. Mae Cyngor Hindwiaid Cymru yn weithgar dros ben. Mewn tair blynedd fe gasglwyd £65.000, a llwyddo i godi cerflun o Mahatma Gandhi ar Rodfa Lloyd George yn y brifddinas. Dadorchuddiwyd y cerflun efydd, chwe throedfedd o uchder ar 2ail Hydref 2017, sef diwrnod pen-blwydd Gandhi, gan ei or-ŵyr Satish Dhupelia. Teithiodd ef o'i gartref yn Ne Affrica ar gyfer y seremoni. Y cerflunwyr oedd Ram Sutar a'r fab Anil o




ddinas Noida gerllaw Delhi. Yn bresennol oedd Mr Carwyn Jones, prif weinidog Cymru, aelodau eraill o'r Senedd a Chyngor Dinas Caerdydd, Raj Aggarwal, Prif Gonswl Anrhydeddus dros India a YK Sinha, Uchel Comisiynydd India.

Mae'r cerflun yn portreadu Gandhi gyda'i ffon yn un llaw ac yn y llaw arall gwelir ei lyfr Sanctaidd, y Bhagavad Gita. Roedd dros bum cant o bobl yn bresennol yn y dadorchuddio a dim enaid byw yn gwybod fod yna drosiad Cymraeg ohono. Yn ystod y flwyddyn ganlynol daeth Vimla Patel, Cadeirydd y Cyngor Hindwiaid, i wybod fod y Gita

wedi'i drosi yn 1992, o dan yr enw "Fendigaid Gân". Dysgodd un o gyn weinidogion y Priordy, y diweddar Barchedig Athro Cyril Glyndwr Williams D.D., yr iaith Sanskrit er mwyn ei drosi o'r gwreiddiol. Fe gyhoeddwyd y gwaith gan Wasg Prifysgol Cymru. Bu'r ymateb yn wych a diolchgar i'r newyddion yma pan sylweddolwyd fod ysbrydolrwydd a sancteiddrwydd a hapusrwydd y Bhagavad Gita

wedi'i drosglwyddo i wlad fach o dair miliwn o bobl yn y Gorllewin. Gallwn ni yng Nghymru ei ddarllen a mawr fu'r holi lle gellid ei brynu.

Felly ar ddyddiad pen-blwydd Gandhi, 149 mlynedd yn ôl i eleni, a hithau hefyd yn Ddydd Heddwch Rhyngwladol Di-drais, gwahoddwyd Eirian J Williams, ei fab Iwan a'i frawd Martyn, sef meibion ac ŵyr y diweddar Barchedig Athro Cyril Glyndwr



Williams, i'r achlysur. Cafodd Eirian gyfle i sôn am ei dad a'r ffordd yr aeth ati i drosi'r gwaith.




AR YR UN dyddiad yn 2019 bydd dathlu mawr, sef 150 mlynedd oddi ar geni Gandhi. Cafodd teulu'r Williamsiaid wahoddiad i fod yno a bydd Eirian Williams yn darllen o'r "Fendigaid Gân". Meddai Vimla Patel, "*Mahatma Gandhi's station is an inspiration to current and future generations to live together in peace and*

harmony and to treat each other with love and respect irrespective of one's religion, culture or race."

 CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2018-19 AR DDYDD IAU YM MHOB ACHOS 	
29 Tachwedd 2018 (10.30am a 1.30pm)	Trinity, Llanboidy
14 Mawrth 2019, (10.30am a 1.30pm)	Nebo Llanpumsaint
9 Mai 2019 (4.00pm a 7.00pm)	Y Priordy
12 Medi 2019 (4.00 a 7.00pm)	Henllan Amgoed
8 Tachwedd 2019 (10.30am a 1.30pm)	Hermon


UN FACH ARALL?

Yn ystod tymhorau'r hydref a'r gaeaf fe glywn y cyhoeddiad 'A wnaiff y gwragedd...?' yn bur aml yn ein capeli. Ac rydyn ni'n gwybod yn iawn beth sy'n dod nesaf!



Go brin y byddai unrhyw oedfaon adeg Diolchgarwch a'r Nadolig, er enghraifft, yn gyflawn oni bai am y lluniaeth ysgafn sy'n eu dilyn - diolch i'r gwragedd o hyd, wrth gwrs!

Conglfaen y lluniaeth yn aml iawn yw'r frechdan, boed yn un tiwna, ham, samwn, wy neu gaws. Oes, mae yna edrych ymlaen at y frechdan!




Ys gwn i beth yw'ch ffeffryn chi? Yn ei hunangofiant *Gwyn y Mans* mae Gwyn Elfyn yn sôn am hoffter ei daid o frechdan siwgr. Tybed a oes gennych chi atgofion plentyn o'r frechdan honno? Hen ffeffryn arall slawer dydd, yn enwedig ar adegau o gyni, oedd y frechdan jam. Oeddech chi'n hoffi honno?

Bellach, mae'r dewis yn gallu bod yn anhygoel o soffistigedig gyda'n caffis a'n harchfarchnadoedd yn cystadlu am y cyfuniad gorau. Efallai bod ambell Gwrdd Chwarter yn

disgyn i'r categori hwn hefyd! Clywed un tro i'r Cwrdd Chwarter fod yn achlysur arbennig iawn gan fod y brechdanau'n cynnwys pedwar math o gig!

Ac o sôn am gapel ac ati, tybed faint ohonoch sydd wedi clywed am y 'frechdan grefyddol'? Na, nid un i'w bwyta yw hon, cofiwch. Mae Gwyn Griffiths yn tynnu sylw ati yn ei gyfrol *Henry Richard: Heddychwyr a Gwladgarwr*. Roedd hi'n arferiad i gynnwys pregeth Saesneg o dro i dro mewn sasiwn neu gymanfa bregethu a byddai Richard yn cyfeirio'n chwareus at bregeth o'r fath fel 'brechdan grefyddol' – gydag un



gwahaniaeth. Gyda brechdan arferol yn y canol mae'r peth blasus ond yn achos sasiwn neu gymanfa gyda'r bregeth Saesneg y canol oedd yn ddiflas a'r darnau o bobtu oedd yn flasus!

Ond pam sôn am hyn oll meddech chi?

Wel, mae'r frechdan fodern wedi'i henwi ar ôl yr Arglwydd John Montague, pedwerydd Iarll Sandwich a aned ar 13 Tachwedd 1718, union dri chanmlynedd yn ôl i'r mis hwn. Yn ôl yr hanes roedd yr Arglwydd Sandwich yn gamblwr o fri. Doedd e ddim yn hoffi gadael y byrddau



hapchwarae i gael pryd o fwyd ac felly byddai'n galw ar weinyddion y casino i ddod â darnau o gig iddo rhwng dwy dafell o fara wedi'u tostio. Daeth ei ffrindiau gamblo'n gyfarwydd â'r arfer a chychwyn archebu'r un peth ag roedd Iarll Sandwich yn ei fwyta! A dyna eni'r enw 'sandwich' neu'r frechdan fodern. Ond mae bywgraffydd Sandwich, N A M Rodger yn cynnig rheswm amgen ac yn awgrymu mai ymrwymiad Sandwich i'r llynges, gwleidyddiaeth a'r celfyddydau yn hytrach na gamblo oedd yn ei atal rhag y bwrdd bwyd a'i bod yn fwy tebygol iddo fwyta'i frechdan gyntaf wrth ei ddesg. Beth bynnag sy'n wir, mae'n amlwg mai gŵr anodd i'w ddenu at y bwrdd bwyd oedd Montague!

Mewn difrif, ble bydden ni heddiw heb frechdan mewn sosial neu focs bwyd? A gyda llaw, er gwybodaeth i chi'r merched- a'r dynion wrth gwrs, y frechdan fwyaf poblogaidd yng Ngwledydd Prydain yn ôl arolwg a gynhaliwyd yn gynharach eleni, yw'r frechdan gaws ac yn dynn ar ei sodlau mae'r frechdan ham a chaws, salad ham, selsig, caws a winwns a mayonnaise wy!



CWRDD EGLWYS

Dydd Sul, 23 Hydref 2018

Daeth Deddf Diogelu Data newydd i rym ar 25 Mai 2018 a bu'r Cwrdd uchod yn trafod goblygiadau hyn i ni fel eglwys.

Esboniodd ein Gweinidog ei bod eisoes wedi anfon at aelodau ac eraill i ofyn am eu caniatâd i gysylltu â nhw drwy e-bost.

Nododdd hefyd ein bod fel Eglwys yn y broses o baratoi Polisi Preifatrwydd. Mae H Llywelyn Edwards, ein Hysgrifennydd Ariannol, eisoes wedi paratoi drafft. Bydd yn cael ei drafod gan y diaconiaid a'r ymddiriedolwyr cyn ei gyflwyno i'r aelodau i gyd mewn cwrdd eglwys arall i geisio sêl eu bendith.

Prif ddiben y Cwrdd hwn oedd ystyried cynnwys ein Hadroddiaad Blynnyddol. Yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth penderfynwyd (drwy fwyafrif) y byddem yn cynnwys mantolen yn ein hadroddiad ynghyd ag enwau aelodau ond heb eu cyfraniadau unigol a'u cyfeiriadau. (Bydd enwau a chyfraniadau unigolion yn cael eu cadw'n ddiogel gennym ar bapur a ffon gof dan glo). Byddwn yn cysylltu â'r aelodau drwy lythyr i ofyn am eu caniatâd i gynnwys eu henwau yn yr adroddiad. Mae'n ofynnol i bawb ymateb i'r llythyr. Fel arall, fydden ni ddim yn gallu cyhoeddi enw'r aelod a byddai'n ymddangos yn ddi-enw.

Diolch am eich cydweithrediad yn y mater dyrys hwn. Byddwn yn sicr yn cyflwyno unrhyw wybodaeth bellach a ddaw i law i'ch sylw,



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 22 TACHWEDD 2018

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



Eirlys Jones...

OEDFA DDIOLCHGARWCH CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Roedd Lolfa Cartref Plas-y-Dderwen yn llawn ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch ar Ddydd Gwener 22 Hydref rhwng y trigolion, eu perthnasau, a ffrindiau o wahanol gapeli'r cylch, Roedd



y gwasanaeth yng ngofal Y Parchedig Beti-Wyn, ein Gweinidog, gyda Mai Thomas yn cyfeilio ar yr organ.



Mae'r Cynhaeaf a'i gynnyrch a gallu Duw a'i wyrth ym myd natur yn destun rhyfeddod yn wir. Cyfeiriodd Beti-Wyn yn arbennig yn ei

myfyrdod at un o ffrwythau cynhenid Cymru sy'n fyd-enwog, sef afal unigryw Ynys Enlli.

Dywedodd fel y gallwn weld drwy dorri canol afal o'r ochr, fod craidd neu galon afal yn seren. Mae seren y tu mewn i bob un ohonom ninnau hefyd. Duw blannodd y seren arbennig hon. Plannodd seren ffydd a seren cariad ym mhob un ohonom.



Yn y weddi diolchwyd am gael cyfarfod a'n gilydd, am ffrwyth y ddaear a gofal ein Duw dros Blas-y-Dderwen a throsom oll bob amser.

Mwynhawyd paned a sgwrs â'n gilydd cyn ymadael - diolch i Staff y Cartref.

Carys Morgans, Swyddog

Cyswllt y Gefeillio

yn cyflwyno...

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



DOD AT EIN GILYDD

Cynhaliwyd Sul Cyngor Eglwysi'r Dref eleni yng nghapel Caersalem Braf oedd cael cydaddoli gydag eglwysi'r dref. Oedfa'r Teulu gafwyd yn y bore dan arweiniad Sue Williams a bu plant a phobl ifanc Noddfa, Salem a Seilo'n cymryd rhan. Oedfa bregethu gafwyd gyda'r nos dan arweiniad Siân Williams gydag eglwysi Ebeneser a Llanbeblig yn cymryd rhan.

TRO DA

Ar ddiwedd oedfa'r bore Sul aeth yr aelodau i'r festri i weld Seren Lois,



un o blant y capel sy'n 8oed yn torri'i gwallt coch. Mae wedi cyfrannu'i gwallt i'r elusen *Princess Trust* sy'n gwneud wigiau i blant sydd wedi cael triniaeth ar gyfer canser. Yn ôl pob sôn mae'r elusen yn falch iawn pan fydd rhywun â gwallt coch yn cyfrannu oherwydd ei fod mor brin. Roedd cyfle i bobl noddi Seren hefyd a chyfrannu at yr achos – hyd yn hyn mae wedi llwyddo i gasglu dros fil o bunnoedd

APÊL MADAGASGAR

Lansiwyd yr Apêl yn y Gymdeithas gan Mererid Mair. Tynnodd sylw at y pedwar prosiect fydd ar eu hennill yn sgil yr apêl. Ar Sul Diolchgarwch yr eglwys daeth y plant/ieuenctid â ffrwythau a Photiau Pringles a roddwyd iddynt ddechrau Medi i'w llenwi gydag arian (darnau 5.10,20.50c neu £1). Rhannwyd y ffrwythau i aelodau'r eglwys a derbyniwyd £140 at apêl Madagasgar.



Y GWIR GEIDWAD

A WYDDECH CHI mai ugain mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon y daeth yr hen arfer o geidwaid yn gofalu am oleudai am bedair awr ar hugain yng Nghymru i ben? Er bod llawer o oleudai'n dal i fwrw golau yn y tywyllwch does dim ceidwaid ar ddyletswydd bellach.

Dechreuwyd y polisi o awtomeiddio gan Dŷ Trinity mor bell yn ôl â 1910 gan gyrraedd rhyw fath o binacl yn yr 80au ond ddaeth y broses ddim i fwcl yn llwyr tan 1998. Mae dros dri deg o oleudai o gwmpas arfordir Cymry o hyd ond bod llawer ohonynt wedi'u digomisiynu erbyn hyn,



Y goleudy olaf y bu ceidwad ynddo yng Nghymru yw **Goleudy Trwyn yr As Fach** ar arfordir treftadaeth Morgannwg. Fe'i codwyd ar frys ym 1831-32 mewn ymateb, mae'n debyg, i longddrylliad enbyd y flwyddyn flaenorol lle collwyd 78 o fywydau, gan gynnwys o leiaf un bonheddwr milwrol o radd

uchel iawn. Cafodd y goleudy'i awtomeiddio ym 1998.

Mae'r goleudy'n symbol o oleuni yn y tywyllwch ac yn enw priodol felly ar wasanaeth annibynnol a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Heddlu a



Throseddau Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn y llynedd. Agorodd y Goleudy'i linellau i ddioddefwyr a thystion trosedd am y tro cyntaf yn Ebrill 2017. Yna yn Ebrill 2018 dechreuodd gynnig cefnogaeth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gydnabod yr effaith niweidiol y gall y math hwn o ymddygiad ei gael ar unigolyn neu ar

y gymuned ehangach. Mae gan y gwasanaeth ganolfan ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys a gweithiwr cefnogi ym mhob sir yn ardal yr heddlu - Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth emosiynol, ymarferol a

phersonol i bob dioddefydd a thyst trosedd, o droseddau difrifol a chymhleth, i ddioddefwyr twyll, a chefnogi dioddefwyr terfysgaeth a seiberdrosedd.

Mae'r goleudy'n rhan o enw un o'n caneuon mwyaf poblogaidd a hyfryd, sef *Ceidwad y Goleudy*.

Cysylltiir y gân â Mynediad am Ddim ond hefyd Bryn Fôn.

Ynys Llanddwyn oedd yr ysbrydoliaeth wreiddiol, yn ôl yr awdur Emyr Huws Jones.

Byddai'n ymweld â'r ynys pan oedd yn blentyn oherwydd cysylltiadau'i fam â'r ardal. Yn

ei gyfrol *Caneuon Ems*, mae'n dweud iddo ysgrifennu'r gân pan roddwyd y lle ar werth yn y 1970au. Tybed pwy a beth oedd ar ei feddwl wrth iddo ganu am Geidwad y Goleudy?.



MAE CYFFELYBU'N AML rhwng y goleudy a goleuni Crist. Fel mae goleuni'r goleudy'n troi i mewn i dywyllwch y môr mae goleuni Crist yn dod i ganol tywyllwch y ddynoliaeth. Erbyn heddiw, mae goleudai wedi'u hawtomeiddio ac yn cael eu defnyddio'n bennaf fel systemau



cefnogol. Cawsant eu disodli fel cymorth morlywio sylfaenol gan systemau'n seiliedig ar loeren. Daeth oes llawer ohonynt i ben, fel yn wir yn achos y ceidwaid. Ond nid felly Crist, y Gwir Geidwad. Ni fydd Crist y Gwir oleuni'n cael ei ddisodli gan unrhyw system awtomeiddio. Ni fydd y drws yn cael ei ddangos iddo ychwaith. Goleuni'r byd yw Crist a dyw'r goleuni hwnnw byth yn diffodd.

MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN

PLYGAIN

NOS SUL - 16 RHAGFYR 2018 - 7.30
EGLWYS CRIST, CAERFYRDDIN

RHAGLEN: £3



**CINIO SUL YR OFALAETH YNG NGWESTY'R
LLWYN IORWG – 21 HYDREF 2018**



***Trefnwyd gan Gapel Cana.
Talwyd y diolchiadau gan Sulwyn
Thomas, Cadeirydd Swyddogion yr
Ofalaeth***

***PIP YN PETHAU DA
21 Hydref 2018***

***Mwynhawyd brecwast
blasus – diolch i
garedigrwydd Alison
Parsons a'i staff.***

***Diolch hefyd i Elinor
Wyn Reynolds am ddod
draw i drafod dulliau o
godi arian at Apel
Madagascar Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg***



Tudalen leuenctid@Priordy

Zak o Awstalia



Bydd Zak yn ymuno â ni ar gyfer sawl peth yn yr Ysgol Sul dros y pythefnos nesaf. Gobeithio y byddwch yno i'w groesawu!



Erw Hir

Diolch yn fawr iawn i bawb a aeth i Erw Hir i gynnal gwasanaeth. Roedd y trigolion mor falch o gael eich cwmni. Diolch i Llinos am drefnu.

PIP



Diolch i bawb a aeth i gaffi Pethau Da ac i Alison am drefnu. Diolch i Elinor Wyn am sôn am

Apêl Madagasgar ac am yr holl syniadau am ffyrdd i godi arian! Edrychwn ymlaen at eu gweithredu.

Dyddiadur

Tachwedd 4	Ysgol Sul gyda Zak	PIP Croeso i chi ddod i gwrdd â Zak hefyd
Tachwedd 11 Dosbarthu sgriptiau'r Gwasnaaeth Nadolig	Ysgol Sul yn y festri	PIP yn y festri
Tachwedd 18	Ysgol Sul Ymarfer yn y Festri	PIP Ymarfer yng Nghapel Penuel
Tachwedd 25	Ysgol Sul Ymarfer yn y Festri	PIP Ymarfer yng Nghapel Penuel
Rhagfyr 2	Ysgol Sul Ymarfer yn y Festri	PIP Ymarfer yng Nghapel Penuel
Rhagfyr 9	Ymarfer i bawb yn y Capel am 10	Gwasanaeth Nadolig 3.30

**GWASANAETH NADOLIG
PRYNHAWN SUL,
9 RHAGFYR AM 3.30
O'R GLOCH**



YMATEB ARDDERCHOG I APÊL ELUSENNOL MIS MEDI



Tools for Life
WORKAID®

***Daeth Ian Rock, un o
weithwyr Work Aid yr holl
ffordd o Swydd
Buckingham i gasglu'r
nwyddau a gyflwynwyd gan
aelodau'r Ofalaeth a
ffrindiau'r ardal at apêl
Work Aid. Diolch i bawb am
eich cefnogaeth.***



TUDALEN BLAEN

Rheswm Fflur Dafydd dros ddewis *'Pan welaf wên y blodau...*



Dyma eiriau fy nhad-cu, y Parchedig T. Elfyn Jones, o'i 'Emyn Plant', un o nifer o emynau a ysgrifennodd yn ystod ei yrfa fel gweinidog, emynydd a bardd. 'Bardd-bregethwr' ydoedd, a chanddo gyffyrddiad telynegol, anarferol, a'i emynau wastad yn 'canu' ar y dudalen, ymhell cyn iddynt gael eu gosod i gerddoriaeth. Fe wasanaethodd Tad-cu fel gweinidog mewn sawl ardal - o Bontardawe i Beniel - ac mae'r bobl hynny'n dal i gofio'n annwyl iawn amdano. Roedd yn gymeriad digon diymhongar, ac yn wir, nid oedd am gyhoeddi cyfrol o gwbl nes i rai aelodau o'r teulu ei siarsio i wneud. Dyma ei gyfrol gyntaf, 'Seinio Clod' yn ymddangos pan roedd e'n 91 oed, ac yntau, â'i hiwmor nodweddiadol, yn gweld hynny'n ddigri ar y naw. Y flwyddyn gynt, fe aeth i gopa'r Wyddfa am y tro cyntaf - nid pawb sydd mor anturus a chynhyrchiol yn eu 90au!

Heb os, roedd Tad-cu'n ddylanwad mawr ar nifer ohonom yn y teulu, gyda Mam (Menna Elfyn) yn creu gyrfa lwyddiannus i'w hun fel bardd rhyngwladol, a minnau hefyd yn dilyn ôl traed y ddau a mynd i faes rhyddiaith, drama a cherddoriaeth. Wrth rhyddhau albwm 'Ffydd Gobaith Cariad' yn 2012, fe ddaeth cyfle i dalu teyrnged iddo yn fy nghân 'Elfyn', sydd yn eistedd ochr yn ochr â theyrnged i fy mam-gu, Rachel Myra (Meira), ac mae'r caneuon hynny'n dwyn i gof y cymeriadau hoffus fel yr oedden nhw, yn llawn cefnogaeth tawel a chariad. Wrth ganu'r geiriau hynny o'i emyn plant ar fy alaw fy hun, ro'n i'n teimlo bod y geiriau a'r alawon o ddwy genhedlaeth wahanol yn plethu'n gwlwm am ei gilydd. Yn dilyn pennill olaf yr Emyrn Plant sydd i'w glywed yn fy nheyrnged - *'Pan deimlaf rin yr awel / a'i chyffro 'mrigau'r coed / O galw fi i'th lwybrau / a'r Gwanwyn dan fy nhroed'* - ategais y geiriau hyn:

Dyma'r geiriau adawodd i ni / Geiriau fy Nhadcu / Fel hedyn yn y pridd / Sy'n blodeuo o hyd.

Diolch felly Tad-cu, T. Elfyn Jones, am dy eiriau, ac am blannu'r hedyn ynof fi.

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN
CWRDD CHWARTER**

**Dydd Iau 29 Tachwedd 2018
10.30 a 1.30
Triniti, Llanboidy**



**Yn y prynhawn
Anerchiad Y Parchedig T Meirion Sewell
y Llywydd Newydd**

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

**Yn ymuno â Chymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl, Talog
a Foelcwan)**

Nos Iau, 6 Rhagfyr 2018 – 7 – Ffesti'r Tabernacl

Alun Harries

Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin



**CARTREF PLAS Y DDERWEN
GWASANAETH NADOLIG**

gyda'n Gweinidog

Bore Gwener, 7 Rhagfyr 2018 am 11am

Croeso cynnes i bawb



**CARDIAU NADOLIG
CYMORTH CRISTNOGOL**

***ar werth
yn y Priordy
yn ystod mis Tachwedd***

TAITH ADNODDAU NADOLIG



Mae'r Cyngor Ysgolion Sul yn cynnal
noson yn festri Capel y Priordy,
Caerfyrddin ar Nos Lun, 26 Tachwedd
2018 rhwng 7 a 9 i gyflwyno adnoddau
Nadolig newydd.

Bydd cyfle ar y noson i brynu:

- Yr holl adnoddau Nadolig cenhadol newydd am 2018
- Cardiau Nadolig newydd yr Ysgol Sul
- Llyfrau anrhegion Nadoligaidd i blant, gan gynnwys nifer o lyfrau bargaen am hanner pris neu lai. Delfrydol ar gyfer anrhegion Nadolig i blant yr Ysgol Sul neu Gylch Meithrin.
- Bydd cyfle hefyd i weld a phrynu dewis dethol o werslyfrau Ysgol Sul a llyfrau defosiynol newydd. Cynigir gostyngiadau i eglwysi ar yr holl lyfrau hyn.

Croeso i bawb



YMARFERION PARTION CANU'R
MERCHED A'R BECHGYN!

yn dechrau

BORE SUL 11 TACHWEDD 2018

*Gofynnir am eich cefnogaeth,
os gwelwch yn dda*

GWASANAETH NADOLIG CYLCH MEITHRIN MYRDDIN

yn
Y PRIORDY

Prynhawn Sul, 16 Rhagfyr 2018 am 2 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb



YMBARATOWCH AR GYFER Y NADOLIG!

PA MOR DDA YDYCH CHI'N ADNABOD
EMÝNAU'R ADFENT A'R GENI?

*Rhowch gynnig arni!
Llanwch y bylchau*

1	Rh								
2	A								
3	G								
4	F								
5	Y								
6	R								

1	_____ foliant o'r mwyaf
2	_____ i Fethlem, bawb dan ganu
3	_____ gaeaf noethlwm
4	_____ Fam, fe glywaist ti
5	_____ gynnar heddiw'r bore
6	_____ yn y wlad honno fugeiliaid yn gwyllo

Atebion

**Gweler Caneuon Ffydd
469, 436, 466, 435, 481, 473**

**Sgôr dan 6 - Angen troi at Adran yr Adfent a'r Geni yn
Caneuon Ffydd bob nos yn ystod y mis hwn er mwyn
ymbaratoi'n briodol ar gyfer mis Rhagfyr**

**Trefina Jones, Prifathrawes Ysgol
Llansteffan ac aelod ffyddlon o
Gapel Bancyfelin yn sôn am....**

Coffáu Ffoaduriaid Gwlad Belg
yn Ysgol Llansteffan

ROEDD Dydd Llun, 1 Hydref yn
ddiwrnod hanesyddol yn Ysgol
Llansteffan oherwydd roedd y diwrnod
yn benllanw deunaw mis o waith gyda Dadorchuddio Ffenest Liw
arbennig. Dyma'r cefndir
hanesyddol:-



Pan ymosododd yr Almaenwyr ar
Wlad Belg yn Hydref 1914, yn ystod
y Rhyfel Byd Cyntaf, bu'n rhaid i tua
chwarter miliwn o Felgiaid ffoi o'u
cartrefi, gyda llawer yn marw wrth
wneud hynny. Cyrhaeddodd llawer
o'r ffoaduriaid Brydain ac fe'u
dosbarthwyd mewn grwpiau bach
ledled y wlad a sefydlwyd pwyllgorau
lleol i ddelio â'r mewnlifiad, gan
gynnwys Pwyllgor Ffoaduriaid
Undeb Caerfyrddin er mwyn Atal
Trallod. Gofynnwyd am dai mawr yn
yr ardal oedd yn medru eu cartrefu.
Yng Nghaerfyrddin ei hun lleolwyd
ffoaduriaid ym Mhlas Rhydygors a
27 Stryd Glas.

Yn Llansteffan y dewis amlwg oedd
y Plas. Yn ystod yr amser yma, y
tenant swyddogol oedd y prif feddyg, Syr John Williams,
sylfaenydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a oedd wedi cymryd
prydles 21 mlynedd ym mis Mawrth 1903. Ar 21 Tachwedd 1914


cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Llansteffan i drafod derbyn ffoaduriaid Gwlad Belg. Cadeirydd y cyfarfod oedd yr Uwch-gapten Thomas Henry Dowdeswell, a oedd wedi prynu plasty'r Cottage ym 1906 a chwarae rhan amlwg ym mhob agwedd ar fywyd y pentref. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o Lansteffan, Llanybri, Llangynog a Llangain, ac roedd pawb yn frwdfrydig am y prosiect. Eglurwyd bod disgwyl i'r holl eglwysi a chapeli lleol gefnogi'r cynllun gyda chyfraniadau wythnosol. Roedd cylchlythyrau'n cael eu hanfon i bob man addoli, a byddai nifer y ffoaduriaid i'w cynnal yn dibynnu ar yr atebion a dderbyniwyd. Roedd plant yr Ysgol Genedlaethol yn fodlon rhoi o'u harian piced eu hunain - ceiniogau a hanner ceiniog -, bob wythnos i '*gynnal un plentyn o wlad Belg mewn cysur a diogelwch*'. Roedd Dosbarth Gwnïo'r Merched wedi helpu i ddodrefnu'r Plas trwy gasglu dodrefn ac offer a roddwyd gan bentrefwyr.

Penodwyd Pwyllgor Rheolaeth ac ar 1 Rhagfyr 1914 cyrhaeddodd y teulu cyntaf Lansteffan o wlad Belg. Roedd saith o blant gan y teulu hwn. Pan gyrhaeddodd y teulu roedd pobl y pentref allan ar y sgwâr i'w croesawu. Roedd plant yr ysgol wedi dysgu canu'r *Brabanconne* (Anthem Gwlad Belg). Y noson ganlynol cyrhaeddodd 15 yn fwy o ffoaduriaid a chyfanswm y ffoaduriaid a ddaeth yma oedd 32.



Roedd rheolau llym yn y Plas - bwyd am hanner awr wedi wyth, un o'r gloch a chwech o'r gloch ac roedd yn rhaid cloi'r drws am saith a diffodd y golau am ddeg o'r gloch. Roedd yr oedolion yn cael gwersi Saesneg gyda Miss Evans a bu'r bobl leol yn gweithio'n galed er mwyn gwneud bywyd y ffoaduriaid yn haws. Cynhaliwyd cyngherddau er mwyn codi arian i'w cynnal a threfnwyd partïon ar eu cyfer. Bu pobl ardal Lansteffan yn garedig iawn er mwyn croesawu a chynnal y ffoaduriaid.

Gyda chanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, gwnaeth Cymdeithas Hanes Llansteffan gais Loteri er mwyn ymchwilio i hanes y rhyfel yn yr ardal ac fel rhan o'r cais yma, gofynnwyd i'r ysgol gymryd rhan flaenllaw yn y cofio. Roedd Miss Eiluned Rees, hanesydd lleol, yn teimlo'i bod yn bwysig iawn fod disgyblion yr ysgol yn dod yn ymwybodol o'r hanes, gan na chafodd hi wybod am yr hanes yn ystod ei phlentynodod hi.



Yn dilyn ymweliadau lle bu'r disgyblion presennol yn dysgu am yr hanes, bu'r plant yn cydweithio gyda Chwmni Cariad Glass o Landysul er mwyn cynllunio'r ffenest. Cafodd pob plentyn gyfle i ddylunio'u syniadau ac yna bu Justine a Chris yn greffus iawn yn cyfuno'r syniadau i greu ffenest sy'n ymgorffori cymaint o bethau a ddaliodd sylw'r disgyblion yn yr hanes. Bellach mae'r ffenest yn gofnod o gyfnod pwysig yn yr ardal a hefyd yn gofnod o garedigrwydd pobl yr ardal mewn cyfnod o ryfel.

CYMANFA GAROLAU

**Nos Sadwrn, 15 Rhagfyr am 7 yn Y Priordy
Côr Llanpumsaint Parti Harmoni ac eraill**

Gwyn Nicholas	Iwan Evans
Arweinydd y Gân	Organydd
Beti-Wyn	Dr Hefin Jones (Caerdydd)
Cyflwynydd	Llywydd



Mynediad am ddim, gwneir casgliad yn ystod y noson at elusen **Amser Justin Time** er cof am Alison, merch Ann Griffiths, un o'n ffyddloniaid yn y Priordy



CRISTION

Cyhoeddiad deufisol – ar ei newydd wedd!

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas



**Estynnir gwahoddiad gwresog i chi ymuno yn ein dathliad
i goffáu bywyd person arbennig i chi
*Mae eu fflam yn dal yn ddisglair***

**Dydd Sul 18 Tachwedd 2018 - 2.30
yn y
Tŷ Gwydr Mawr
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Llanarthne**



Mynediad am ddim trwy'r brif fynedfa

***Darllenïadau dewisiëdig, cyfraniadau cerddorol gan artistiaid
lleol, ynghyd â chanu rhai caneuon/carolau poblogaidd***

***Cyfle i fyfyrïo ac i gynnu cannyll personol ac i gyflwyno
enw'ch anwylyn***

Euryl Howells (Caplan Ysbytai Gorllewin Cymru),

**Dydd Gweddï Byd-Eang y Chwiorydd
Cynhelir
Cynhadledd i Baratoi ar gyfer
Dydd Gweddï 2019
Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018
10.30 tan 12.30 (coffi o 10 ymlaen)
Festri Capel Heol Awst
Croeso i bawb**



CASGLIAD Y GENHADAETH

**Codwyd £140 at y Genhadaeth. Diolch i bawb a
gyfrannodd ac i Adrian Evans, Trysorydd, am
gadw'r cyfrifon.**

CYFARFOD BLYNYDDOL GŴYL MAWL MEDI

Dydd Sul 18 Tachwedd 2018 - 6.00pm

Festri'r Priordy

Croeso cynnes i bawb



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Tachwedd		Rhagfyr	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Philip Jones	Gwynfor Davies	Chris Lloyd	Gareth Gravell



BLODAU



Tachwedd	4	Catrin Heledd	Rhagfyr	2	Mair Lewis
	11			9	
	18	Gloria Evans		16	
	25			23	Hefina Lloyd
				30	



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Tachwedd	4	Bore	Mari Jenkins a Thelma Evans
Rhagfyr	2	Hwyr	Enid Wyn Jones a Jan Davies



YMWELWYR



Tachwedd / Rhagfyr	Gweinidog (Anrhegion Nadolig)
--------------------	-------------------------------



DARLLENWYR



Tachwedd	4	Heledd Jones	Rhagfyr	2	Heledd Tomos
	11	Llinos Jones		9	
	18	Juine Thomas		16	Alun Charles
	25	Nansi Hayes		23	Philip Jones
				30	



CYHOEDDWYR



Tachwedd	Wyn Tegryn Evans	Rhagfyr	Gareth Gravell
----------	------------------	---------	----------------

Y GYMDEITHAS





Ar ddiwrnod cyntaf mis Hydref eleni dechreuodd rhaglen newydd y Gymdeithas a phwy well i gychwyn y gyfres, nag un o'n haelodau, sef Elinor Wyn. Braidd bod angen cyflwyno Elinor gan ei bod hi'n gyfarwydd i ni i gyd fel awdur, bardd a golygydd. Mae hi hefyd yn Swyddog Cyhoeddiadau a Chynorthwy-ydd gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Cafwyd noson hwylus a difyrus iawn yn ei chwmni. Darllenodd ddetholiad o'i cherddi'n huawdl ac yn synhwyrus gan roi cefndir ac ambell stori i'w hesbonio a'u dehongli.



Ar ôl darlleniad addas o'r Beibl gan Gwyn Bowyer a chyflwyniad cynhwysfawr gan ein Gweinidog dechreuodd Elinor drwy gyfeirio at y mwynhad a gaiff wrth ysgrifennu ac am y sbardun a ddaw wrth gynnal gweithdai ysgrifennu i blant.

Dywedodd ei bod wastad yn cario pad ysgrifennu rhag ofn iddi weld neu glywed rhywbeth i brocio'r awen

Soniodd ei bod yn dewis themâu drwy sylwi ar bethau cyffredin fel graffiti neu gelfi wedi'u taflu allan o gartrefi, fel yn ystod y pum mlynedd y bu'n byw yng Nghaerdydd, lle roedd golygfeydd fel hyn yn weddol gyffredin. Wrth sylwi ar hyn roedd hi'n medru creu sefyllfa ddychmygus gyda'r gwrthrychau'n cymryd arnynt ffurf anghyffredin, fel sydd yn ei cherdd *"Dyw hi byth yn rhy hwyr"*.

Esboniodd fod bardd yn debyg iawn i artist oherwydd mae'n creu darluniau, rhai o'r teulu'n aml iawn yn achos Elinor. Ganed ei mab Caspar tra oedd yn gweithio i'r BBC yng Nghaerdydd ac roedd hyn yn gyfle i greu storïau gweledol ohoni'n seiclo i'r gwaith ar ôl gadael Caspar yn y feithrinfa. Dro arall, ar ôl esbonio

bod moelni'n weddol amlwg yn ei theulu, penderfynodd weithio cerdd a oedd yn canmol y pen trwchus o wallt sydd gan Caspar!

Felly bardd sy'n cael ei hysbrydoli gan yr hyn sydd o'i chwmpas yn bendant yw Elinor. Fe welwn hyn yn ei cherdd "*Sgidiau*" wrth iddi sôn sut mae merched yn cael cymaint o bleser wrth siopa amdanynt. Dro arall y siop trin gwallt gafodd ei sylw. Ar ôl gwyllo cyfres deledu "*Yn enw serch*" daeth yn amlwg fod rhai merched yn talu cymaint â dau ganpunt i dorri a lliwio gwallt ac ysbrydolodd hyn y gerdd "*Torri calon yn y salon*". Cerdd ddoniol arall yw "*Cwtsh*" lle mae'n sôn am y traddodiad Seisnig o gusanu a chofleidio ond nid yw'n un o hoff arferion y bardd!

Mae cerddi Elinor yn gymysgedd o'r llon a'r lleddf ac un gerdd rymus ac emosiynol iawn yw "*Yemen*". Ynddi mae'n sôn am ferch fach chwe mlwydd oed - yr un oed â Syfi, ei merch. Cawn ddarlun truenus o'r ferch fach yn sefyll yng nghanol y dinistr a'r diflastod yn sgil rhyfel. Yr unig beth yn ysgafnhau'i digalondid oedd modrwy blastig a gafodd ei darganfod ymhlith y rwbel. Mor falch oedd hi o'r peth bach, di-nod, dibwys hwn a oedd yn werth y byd iddi hi.

Noson arbennig iawn oedd yn amlygu gallu neilltuol Elinor ac yn dangos yr ystod eang o ffurfiau barddonol, delweddau ac idiomau sy'n addurno'i gwaith ac yn ei gwneud yn fardd medrus a grymus. Roedd y gynulleidfa niferus wrth ei bfodd – wedi'i swyno a'i denu'n llwyr gan lais Elinor.



**Theatr Genedlaethol Cymru
yn cyflwyno**

**NYRSYS gan
Bethan Marlow**



Theatr y Lyric, Caerfyrddin

Nos Wener a Nos Sadwrn 9 a 10 Tachwedd 2018 – 7.30pm

Sgwrs wedi'r sioe yn y theatr ar y Nos Wener

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher, 14 Tachwedd 2018 am 7 yn y Festri


*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Llinos Roberts am y lluniau'r
mis hwn



BLYCHAU YN Y CYNTEDD



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD

JOIO GYDA IESU

OEDFA FLYNYDDOL MIC AR GYFER Y TEULU CYFAN

Prynhawn Sul, 4 Tachwedd 2018 am 2.30

Capel Gellimanwydd, Rhydaman

gyda

Ben Thomas (Cricieth) - Siaradwr Gwadd

Emyr Lewis (Cyn Gapten Tîm Rygbi Cymru)

Cwmni'r Fedwen (Saron)

Côr Plant Ysgol Gymraeg Rhydaman

Plant Ysgolion Sul y Cylch



Casgliad at MIC (Menter Ieuencid Cristnogol Sir Gâr)

CASGLIAD OLAF AM Y FLWYDDYN

Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU
AM ELEN I YW
9 Rhagfyr 2018

NADOLIG YR OFALAETH 2018



DYDD SUL 9 RHAGFYR 2018
Y PRIORDY
Prynhawn Sul am 3.30
Oedfa Nadolig yr Eglwys gyfan
Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn



CANA
Prynhawn Sul am 1.30
Oedfa Nadolig dan ofal yr Ysgol Sul
Parti i ddilyn

DYDD SUL 16 RHAGFYR 2018
CANA
Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10
Paned i ddilyn

EGLWYS CRIST
Nos Sul am 7.30
Plygain Merched y Wawr

DYDD SUL 23 RHAGFYR 2018
PRIORDY
Oedfa Llith a Charol yr Ofalaeth am 10
Paned i ddilyn

BANCYFELIN
Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned
Gorymdaith drwy'r pentref yn cychwyn am 6
ac Oedfa dan olau kannwyll yn y Capel
Paned i ddilyn

BORE NADOLIG
Oedfa Undebol i'r teulu cyfan yn Y Priordy am 9 y bore gyda'n Gweinidog a'r Bobl
Ifainc

DYDD SUL 31 RHAGFYR 2018
Oedfa Undebol i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 10 gyda'n Gweinidog
Croeso i bawb

NADOLIG – Y STORI

10-15 Rhagfyr 2018 – Capel y Bedyddwyr Saesneg
Amserlen yn ein rhifyn nesaf



APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR



Yn dilyn Apêl Anrhegion Nadolig 2017, y bu eglwysi'r Ofalaeth yn hael iawn eu cefnogaeth iddi - llwyddodd Gwasanaeth Cymorth Ieuencid Sir Gaerfyrddin i ddarparu anrhegion Nadolig i 640 o blant a phobl ifanc yn y Sir.

Byddwn yn cefnogi'r un apêl eto'r Nadolig hwn

Byddwn yn casglu yn y Capel rhwng Sul cyntaf Tachwedd ac ail Sul Rhagfyr.

Pa fath o anrhegion rydyn ni'n chwilio amdanynt?

Rydyn ni'n chwilio am anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau. Gwneir cais arbennig eleni am anrhegion i'r rhai yn eu harddegau

Hefyd, i chi sy'n hoffi gwau, derbynnir dillad wedi'u gwau ar gyfer babanod - capiau, siacedi bach ac yn y blaen.

Byddem yn ddiolchgar pe baech chi ddim yn lapio'r anrhegion gan y byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd. Mae croeso i chi gyfrannu papur lapio, sisyrnau a selotêp ar gyfer y gwirfoddolwyr.

Bydd blychau ym mlaen y Capel i dderbyn eich cyfraniadau.

A wnewch chi sicrhau bod y teganau yn rhai newydd os gwelwch yn dda a heb eu lapio. Awgrym o bris - £5 yr anrheg.



Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth.



Y TYST

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyn Thomas





CROESO cynnes iawn i faban newydd, sef Loti, trydedd ferch i Nerys a BJ Howells, a chwaer fach i Anni a Nansi a aned ar Ddydd Mawrth, 2 Hydref 2018. Pob bendith ar y teulu bach!



Llongyfarchiadau mawr i Carys a Huw Morgans sydd yn fam-gu a thad-cu erbyn hyn! Mae Matthew (mab hynaf Huw) a'i wraig Caroline wedi cael merch fach o'r enw Enfys. Dymuniadau gorau i'r teulu bach yn Llundain ac i Tomos, Cadi ac Ifan yn eu rôl newydd fel ewythr a modryb!

Dymunwn yn dda i bawb sy'n anhwylys y dyddiau hyn ac anfonwn ein cofion cynhesaf at David Baston sydd newydd fod yn yr ysbyty,

Trefnwyd aduniad o Gôr Merched Telynau Tywi yn ddiweddar yn Y Llew Coch,



Llandyfaelog. Cafodd Meinir Hughes Griffiths gryn sioc pan gyrhaeddodd hi'r digwyddiad gan na wyddai ddim ymlaen llaw am y trefniadau. Hwn oedd yr achlysur a drefnwyd gan y merched i longyfarch Meinir ar dderbyn Gwobr T H Parry

Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Meinir oedd Cyfarwyddwr Cerdd ac Arweinydd Côr Merched Telynau Tywi.

Rhian Evans, sy'n ddiwyd iawn gyda Phapur Llafar y Deillion a Llyfrau Llafar Cymru, oedd y siaradwr gwadd ym More Coffi Papur Sain

Ceredigion yn ddiweddar ym Methel, Capel y Bedyddwyr, Stryd y Popty, Aberystwyth. Sefydlwyd Papur Sain Ceredigion ym 1970 – y cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Papur felly'n 48 oed eleni.



Ein llongyfarchiadau mawr i Ann Griffiths ar lwyddiant y Bore Coffi a



gynhaliwyd yng Nghwrt Sant Ioan ar Ddydd Gwener 5 Hydref 2018 gan godi dros £1000 at Ymchwil Canser. Da hefyd oedd clywed am gamp wyrion Ann, sef Carwyn, mab y ddiweddar Alison, a Gareth, mab Julie, yn plymio o'r awyr ar 14 Hydref 2018 ym Maes Awyr Abertawe dros Ganser Pancreatig y Deyrnas Unedig.

Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar dan nawdd Cyngor Tref Caerfyrddin i gyflwyno grantiau i fudiadau gwirfoddol. Yn eu plith roedd **Eiriol** gyda'r Dr Huw Michael yn derbyn ar ran y mudiad a **Llyfrau Llafar Cymru** gyda Sulwyn Thomas yn derbyn. Ymhlith



amryw o wobrau a gyflwynwyd ar y noson derbyniodd Delme a Bethan Thomas wobwr yn y categori gerddi harddaf ar gyrion y dref. Mae Delme, wrth gwrs, yn un o ffyddloniaid Capel Bancyfelin a chawn y pleser o'i gwmni yn ein hoedfaon bob yn hyn a hyn.

DA oedd clywed am lwyddiant Geraint Huw Reynolds, un o blant ein heglwys, yn cipio'r wobwr am y Ffilm Fer Orau, sef **Helfa'r Heli** yng Ngwobrau BAFTA Cymru 2018. Mae'r ffilm yn addasiad o'r stori fer *Catch of the Day* a ysgrifennwyd gan ei wraig Sarah Reynolds. Bu Geraint Huw ar **Heno** yn sôn am yr achlysur a'r ffilm.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i'n
Gweinidog**

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Philip a Jayne Jones a Lucy ar golli ewythr Philip, y diweddar Max Evans ar 20 Hydref 2018. Anfonwn ein cofion at y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

MARWOLAETHAU

Taflodd cwmwl o dristwch ei gysgod yn drwm ar Y Priorddy yn ystod y mis a aeth heibio. Collwyd tri aelod o'n plith. Cofiwn yn annwyl am Eluned Jones, Glan Tywi; Tina Charles, Heol Bronwydd a Gwyneth Griffiths, Heol Bronwydd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'u teuluoedd. Bydd teyrngedau llawn yn ymddangos i'r tair yn Mhapur Priorddy mis Rhagfyr

GAIR O DDIOLCH

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i Enid Evans a'r teulu am y rhodd hael a ddaeth i'r capel drwy ewyllys y diweddar Dewi Evans. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.



Y SULLIADUR



Tachwedd	4	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog a Zac Hayman (ein cyfaill o Awstralia). Paned il ddilyn	Cymun
	11	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	18	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	25	<i>Bore P'nawn</i>	Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Yn y prynhawn am 2 i'r Ofalaeth yng Nghana: Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor	

Rhagfyr	2	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog <i>Casgliad at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Oedfaon yn y Ffestri</i>	Cymun
	9	<i>Bore Pnawn</i>	Ymarfer i'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 y bore ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Gwasanaeth Nadolig y Priordy am 3.30. Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn, <i>Casgliad at yr Ysgol Sul. Casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn</i>	
	16	<i>Bore Pnawn Hwyr</i>	Oedfa'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yng Nghana Gwasanaeth Nadolig Cylch Meithrin Myrddin am 2 Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Eglwys Crist am 7.30	
	23	<i>Bore</i>	Oedfa i'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog	
	30	<i>Bore</i>	Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant YN- Ymarfer Gwasanaeth y Nadolig GN – Gwasanaeth y Nadolig								
Tachwedd				Rhagfyr				
4	11	18	25	2	9	16	23	30
✓	✓ PIP	✓ PIP	✓ PIP	✓YN	YN am GN pm	-	-	-

Y GYMDEITHAS
Nos Lun 5 Tachwedd 2018 - Noson yng nghwmni Alun Wyn Bevan Cana a Bancyfelin yn ymuno â ni